**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 30 Ionawr 2023 am 11.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | L James |
| M H Jones | J W Jones | M W Locke |
| W G Thomas | M S Tribe | T M White |

**Aelod(au) Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Francis-Davies | Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thwristiaeth |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Phillip Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Huw Mowbray | Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol |
| Frances Jenkins | Rheolwr Strategol Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau |
| Steve Hopkins | Rheolwr Twristiaeth a Marchnata |
| Geraldine Williams | Swyddog Gwybodaeth Twristiaeth |
| Stephen Crocker | Cadeirydd Twristiaeth Bae Abertawe |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C M J Evans a/ac D H Jenkins

---

## 26 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

## 27 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 28 Cofnodion

Cytunodd y Panel ar y cofnodion o gyfarfodydd blaenorol.

## 29 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

## 30 Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth

Roedd Robert Francis-Davies, Gweinidog y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, Steve Hopkins a Stephen Crocker, Cadeirydd Twristiaeth Bae Abertawe yn bresennol i drafod yr eitem hon. Gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Roedd Cynllun Datblygu Twristiaeth 2017-2020 yn canolbwyntio ar greu cyrchfan twristiaeth o'r radd flaenaf sy'n darparu profiad ymwelwyr o ansawdd uchel mewn amgylchedd glân, dymunol a gynhelir yn dda.
- Roedd y themâu yn ystod 2017-20 yn cynnwys blwyddyn y chwedlau, blwyddyn y môr a'r flwyddyn ddarganfod.
- Ymysg y llwyddiannau allweddol yn ystod 2017-20 mae marchnata cyrchfannau, gweithio mewn partneriaeth, 'Changing Places', ymgysylltu â masnach, prosiectau cyfalaf, ymchwil twristiaeth a gwybodaeth am dueddiadau twristiaeth.
- Y diwydiant twristiaeth oedd un o'r diwydiannau yr effeithiwyd waethaf arnynt gan bandemig COVID.
- Roedd Cynllun Adferiad Twristiaeth 2021/22 yn cwmpasu'r meysydd adolygu ac ymchwilio, hysbysu a chefnogi ac i atgoffa ac annog cwsmeriaid i ddychwelyd.
- Nod Cynllun Adfer Twristiaeth 2021/22 oedd cefnogi twf ac ailsefydlu hyder yn y sector twristiaeth a lletygarwch.
- Roedd y cymorth busnes a ddarparwyd yn ystod y pandemig yn cynnwys arolwg o'r stoc llety, digwyddiadau ar-lein, dehongli canllawiau, cefnogaeth grant a rhannu gwybodaeth.
- Roedd y Gronfa Cymorth Twristiaeth drwy'r Gronfa Adfer Economaidd wedi cefnogi 8 prosiect gyda hyd at 100% o gyllid yn ystod y pandemig.
- Mae uchafbwyntiau 2022 yn cynnwys y fenter awyr dywyll, ymweliad Tim Peake, busnesau sy'n croesawu cŵn, ymweliadau gwylio natur y gwanwyn/hydref gan Iolo Williams, llunio arweinlyfr i ymwelwyr a dychweliad digwyddiadau mawr.
- Yn 2022 derbyniodd 7 prosiect ychwanegol arian o'r Gronfa Cymorth Twristiaeth sy'n cefnogi ceisiadau ar gyfer gwelliannau ecolegol ac amgylcheddol.
- Mae arolwg STEAM Cymru 2021 yn awgrymu bod y sector yn adfer. Bydd yr arolwg masnach twristiaeth a gynhaliwyd ar ddiwedd 2022 yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd. Roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan.
- Mae heriau'r dyfodol yn cynnwys ardoll twristiaeth, y rheol 182 o ddiwrnodau, costau byw, trwyddedu statudol, cynllunio, recriwtio a natur dymhorol uchel.
- Bydd Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd 2023-25 yn ceisio dod â chanlyniadau arolwg diweddar, adferiad ehangach, adfywio canol y ddinas, digwyddiadau mawr a chyllid ynghyd i gael eu cymeradwyo ym mis Ebrill 2023.
- Bydd y Gwobrau Twristiaeth sydd ar ddod yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.
- Mae bysus yn cael eu darparu gan gwmnïau preifat, ac felly gall fod heriau wrth ddarparu gwasanaeth bws rheolaidd i dwristiaid a phobl leol i bob rhan o

Abertawe. Mae disgwyl i gynllun peilot bysus hydrogen gael ei gynnal yn Abertawe yn y dyfodol agos.
- Cynhyrchwyd 200,000 o gopïau o'r arweinlyfr i ymwelwyr dydd a byddant yn para ychydig o flynyddoedd yn rhagor ond nid oes yr adnoddau mwyach i gynhyrchu copïau papur pellach.
- Gall tai gwyliau ac ail gartrefi fynd ag eiddo oddi ar deuluoedd lleol. Mae'r arolwg stoc llety wedi helpu i ganfod faint o lety sydd ar gael gan gynnwys llety 'airbnb'. Bydd trwyddedu statudol yn golygu bod gan unrhyw un sy'n darparu llety dros nos ryw fath o drwydded.
- Bydd cynllunio'n allweddol wrth ganiatáu llety rheoledig i ateb y galw.
- Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gyflwyno ardoll twristiaeth.

31 **Adroddiad Monitro Rhaglenni/Prosiectau Adfywio**

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro rheolaidd diweddaraf ar y rhaglen/prosiectau adfywio i'r Panel, ar gyfer unrhyw sylwadau/safbwyntiau ar gynnydd a chyflawniadau. Rhoddodd Huw Mowbray, Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol, ddiweddariadau perthnasol am y canlynol:

Bae Copr:
- Ceisir datrysiad am y broblem cysgu allan yn y maes parcio.
- Mae'r lifft gwydr bellach yn gwbl weithredol.
- Bydd y grisiau'n cael eu hail-wneud dros y 4-6 wythnos nesaf.

Adfywio Abertawe:
- Roedd y cais i Gronfa Codi'r Gwastad ar gyfer canol y ddinas yn aflwyddiannus.
- Mae gwaith gyda Urban Splash yn parhau, ac maent yn edrych ar y camau nesaf.

Gogledd Abertawe Ganolog
- Mae gwerthoedd rhenti a marchnad yn cael eu hystyried yn Hwb Sector Cyhoeddus A.
- Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth bellach yn ymwneud â'r Hwb.

Symud y Ganolfan Ddinesig:
- Mae adroddiad dirprwyedig Cam 1 wedi'i ddrafftio.
- Mae Abertawe ar restr fer Llywodraeth Cymru fel safle Angor ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

Datblygu a Pherygl o Lifogydd TAN15:
- Ymgynghorir ar ddrafft diwygiedig ar hyn o bryd gyda rhai gwelliannau ychwanegol.

Sgwâr y Castell:
- Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi.
- Mae'r broses dendro ar fin cychwyn.
- Mae'r Archwiliad Ansawdd wedi'i gwblhau a'i gyflwyno a chwblhawyd yr Archwiliad Diogelwch Ffyrdd a'i roi i'r Adran Briffyrdd ym mis Rhagfyr 2022.

- Mae prosiect Sgwâr y Castell yn un a ariennir gan y cyngor a cheir 4 uned yn y cynllun i'w gosod i denantiaid preifat.

Hwb Cymunedol (hen adeilad BHS):
- Mae rhaglen adeiladu ddiwygiedig wedi'i hadolygu ac mae'r dyddiad cyfredol wedi ei ymestyn hyd at fis Medi 2024.

Adleoli'r Ganolfan Ddinesig:
- Bydd yr holl symudiadau o'r Ganolfan Ddinesig i Neuadd y Ddinas wedi'u cwblhau erbyn mis Medi 2023.
- Disgwylir i'r gwaith i fudo gwasanaethau TGCh o'r Ganolfan Ddinesig i Neuadd y Ddinas gael ei wneud ym mis Medi/Hydref 2023.

Ailddatblygu Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod:
- Rhagwelir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau'n llawn erbyn diwedd mis Chwefror 2023 gyda thrwydded wedi'i baratoi i alluogi Penderyn i ddechrau'r gwaith gosod cyn i'r gwaith gael ei gwblhau.

Adeilad labordy:
- Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau fel rhan o gais llwyddiannus Cronfa Codi'r Gwastad ar gyfer yr Hafod
- Disgwylir costau'n fuan ar opsiynau sgaffaldio.

Theatr y Palace:
- Trefnir i'r rhaglen bresennol gael ei chwblhau erbyn mis Tachwedd 2023.
- Bydd Tramshed yn gosod y safle cyfan.

71-72 Ffordd y Brenin:
- Mae'r gwaith adeiladu wedi cyrraedd lefel y ddaear.
- Mae'r tenant mawr cyntaf wedi'i sicrhau ac mae asiantiaid yn cael eu cyflogi i ddechrau marchnata gweddill yr adeilad.
- Y dyddiad cwblhau disgwyliedig yw Hydref 2023.

32 **Llythyrau**

33 **Cynllun Gwaith**

Nododd y panel y cynllun gwaith.

34 **Gwahardd y Cyhoedd**

Gwaharddwyd y cyhoedd o'r cyfarfod am y rheswm y byddai'n cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i nodir ym Mharagraff 14 Adran 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

35 **Adroddiad Monitro Rhaglenni/Prosiectau Adfywio**

Cynhaliwyd trafodaeth ychwanegol mewn perthynas ag eitem 31.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm.

**Cadeirydd**